**PWYLLGOR ARCHWILIO AC-08-00(p.4)**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 9 Tachwedd 2000 |
| Amser: | 2pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Teitl: **Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99**
**Ymateb Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol i argymhellion y Pwyllgor Archwilio, yn dilyn cyflwyno ei adroddiad ar 22 Awst 2000.**

Mae Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol yn gwerthfawrogi'r adroddiad. Rydym yn croesawu'r casgliadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i chwe argymhelliad yr adroddiad.

**Argymhelliad i.**
**Disgwyliwn i staff y Cynulliad gymryd camau unioni angenrheidiol i sicrhau y cyfunir awdurdodau iechyd Cymru â chyfrifon 2000-2001 y Cynulliad.**

*Er mwyn paratoi ar gyfer llunio cyfrifon cyfunol y Cynulliad ar gyfer 2000-2001, mae swyddogion y Cynulliad yn ymgymryd ag ymarfer cyfuno mewn perthynas â chyfrifon awdurdodau iechyd Cymru ar gyfer 1999-2000. Mae hyn yn cynnwys y 3 mater allweddol hyn: dileu trafodion rhwng awdurdodau, addasu gwerthoedd asedau yn ôl yr angen, a chyflwyno taliadau cyfalaf diwygiedig. Rydym yn cydweithio'n glòs â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ystod yr ymarfer hwn.*

**Argymhelliad ii.**
**Edrychwn i gyfeiriad staff Cyllid y Cynulliad am sicrwydd nad yw'r Ysgrifennydd Parhaol wedi cael achos ar gam i fod yn hyderus yng nghryfder cyfrifon adnoddau 1999-2000**

*Mae'r Cynulliad yn gweithio ar y cyd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i gwblhau cyfrifon 2000. Bu oedi wrth lunio'r cyfrifon am fod angen llunio cyfrifon am y 3 mis hyd Mehefin 1999 er mwyn trosglwyddo asedau a rhwymedigaethau i'r Cynulliad. Ni fydd hyn yn digwydd eto. Bydd y tîm sy'n paratoi'r cyfrifon yn cael mwy o adnoddau i'w helpu i lunio cyfrifon y Cynulliad ar gyfer 2000-2001.*

**Argymhelliad iii.**
**Disgwyliwn i'r Cynulliad fod yn batrwm ar gyfer y cyrff a noddir ganddo wrth fabwysiadu'r arfer gorau o ran prynu systemau gwybodaeth.**

**Argymhelliad iv.**

**Edrychwn i gyfeiriad y tîm prosiect sydd â'r gorchwyl o weithredu'r system gyfrifo newydd i roi adroddiadau cywir ac amserol ar gynnydd i uwch reolwyr, er mwyn i gamau unioni priodol gael eu cymryd ar y cyfle cyntaf, lle bo angen.**

*Mae'r Cynulliad yn defnyddio'r system rheoli prosiect PRINCE wrth gaffael offer TG sylweddol. Un o'r gofynion yw bod yn rhaid cael bwrdd prosiect dan gadeiryddiaeth uwch-reolwr sy'n atebol i'r uwch dîm rheoli am oruchwylio'r prosiect ac am ei gynnydd. Yn ogystal â chynnal cyfarfodydd ffurfiol bwrdd y prosiect yn ystod cyfnodau arbennig yn hanes y prosiect, caiff adroddiadau "tanlinellu" rheolaidd eu llunio gan Reolwr y Prosiect, a hynny naill ai'n fisol neu bob dau fis. Yn ogystal, mae argymhellion y "Cabinet Office Report on Handling Major Government IT Projects", a luniwyd mewn ymateb i'r feirniadaeth a fu ar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am fethiant nifer o brosiectau mawr, wedi'u nodi fel casgliad o ofynion rheoli prosiect safonol sy'n rhaid eu cynnwys ym mhob dogfen cychwyn prosiect ar gyfer prosiectau TG y Cynulliad. Yn achos prosiect system cyfrifo newydd, y Prif Swyddog Cyllid yw cadeirydd y bwrdd prosiect, sef Mr David Richards; bydd Rheolwr y Prosiect yn llunio adroddiadau "tanlinellu" bob dau fis ac yn eu dosbarthu i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ymhlith eraill, gan fod ganddynt ddiddordeb uniongyrchol yn y prosiect. Cyflwynir adroddiad ar gynnydd i'r Ysgrifennydd Parhaol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n ofynnol i'r Cynulliad, wrth iddo gaffael unrhyw system wybodaeth sylweddol ei maint, ofyn i'r Asiantaeth Cyfrifiaduron a Thelegyfathrebu Ganolog (sydd bellach yn rhan o Swyddfa Masnach y Llywodraeth) am gyngor a chymorth.*

**Argymhelliad v.**
**Anogwn yr holl bartïon cyfrannog yn y trafodaethau sydd ar y gweill am bris presgripsiynau i ddod i gytundeb cyflym sy'n rheolaidd, teg a chyfiawn i fferyllwyr a threthdalwyr, fel ei gilydd; ac**

*Mae swyddogion y Cynulliad yn cynnal trafodaethau cymhleth â'r proffesiwn fferyllol gyda'r nod o gael canlyniad sy'n bodloni'r gofynion hyn.*

**Argymhelliad vi.**
**Argymhellwn y dylid rhoi amlygrwydd i faterion llywodraethu corfforaethol yn Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ac anogwn yr Ysgrifennydd Parhaol i roi crynodeb blynyddol i Aelodau'r Cynulliad o waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.**

*Caiff Llywodraethu Corfforaethol sylw yn Adroddiad Blynyddol y Cynulliad. Yn y dyfodol, caiff crynodeb blynyddol o waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ei gyhoeddi ar fewnrwyd y Cynulliad.*